

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil:

## Tir Comin



[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar dreithi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Tŷ Hywel**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7174**

E-bost: **[Jessica.Laimann@assembly.wales](mailto:Jessica.Laimann@assembly.wales)**

Twitter: **[@SeneddResearch](#)**

Blog: **[SeneddResearch.blog](#)**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Briff Ymchwil

## Tir Comin

**Awdur:** Jessica Laimann

**Dyddiad:** Gorffennaf 2018

**Rhif yr ymholiad:** 18-044

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Jessica Laimann gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'i galluogodd i gwblhau'r Papur Ymchwil hwn.



## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Beth yw tir comin?</b>	<b>2</b>
	Hawliau comin.....	2
	Hawliau tifeddianwyr .....	2
<b>2.</b>	<b>Tir comin yng Nghymru</b>	<b>3</b>
<b>3.</b>	<b>Newidiadau mewn deddfwriaeth tir comin</b>	<b>3</b>
	Rhoi Deddf Tir Comin 2006 ar waith yng Nghymru.....	4
<b>4.</b>	<b>Cofrestru tir comin</b> .....	<b>4</b>
<b>5.</b>	<b>Rheoli tir comin</b> .....	<b>5</b>
<b>6.</b>	<b>Mynediad cyhoeddus i dir comin</b> .....	<b>5</b>
<b>7.</b>	<b>Gwaith ar dir comin</b> .....	<b>6</b>
	Caniatâd i gyfnewid a dadgofrestru tir comin .....	6
<b>8.</b>	<b>Busnes y Cynulliad</b> .....	<b>7</b>
<b>9.</b>	<b>Tir comin yng ngwledydd eraill y DU</b> .....	<b>8</b>
<b>10.</b>	<b>Y prif ffynonellau</b> .....	<b>9</b>

# 1. Beth yw tir comin?

Y diffiniad cyffredinol o dir comin yw tir preifat y mae gan bobl eraill hawl i'w ddefnyddio mewn ffyrdd penodol, er enghraifft, i bori gwartheg. Yn wahanol i'r hyn y mae nifer yn ei gredu, nid yw tir comin yn eiddo i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan y cyhoedd yr hawl i fynd ar y tir neu i'w ddefnyddio.

## Hawliau comin

Mae'r rhan fwyaf o dir comin wedi'i seilio ar **hawliau hynafol** a oedd yn bod cyn cyfnod y gyfraith sefydledig. Mae'n bosibl bod yr union hawliau sydd ynghlwm wrth diroedd comin unigol wedi'u cofnodi ond, yn amlach na pheidio, maent wedi'u seilio ar hen draddodiadau.

Gall hawliau tir comin gynnwys:

- Pori defaid neu wartheg (tir pori);
- Casglu mawn neu dywarch (mawnog);
- Casglu coed neu eithin (hawl casglu cynnud);
- Pysgota (hawl pysgota); a hefyd
- Caiff moch fwyta mes a chnau ffawydd (mesobr).

'Cominwyr' yw'r enw ar y rhai sydd â'r hawl i arfer yr hawliau hyn. Mae'r rhan fwyaf o hawliau comin yn gysylltiedig â bod yn berchen ar dir neu anheddu cyfagos, ond gallant hefyd fod yn hawliau mewn gros personol (hawl sy'n gysylltiedig ag unigolyn yn hytrach na thir).

## Hawliau tirfeddianwyr

Fel arfer, mae gan berchnogion tir comin yr un hawliau â thirfeddianwyr eraill cyn belled â'u bod yn sicrhau nad ydynt yn ymyrryd neu'n amharu ar allu neb arall i arfer eu hawliau comin. Er enghraifft, os oes gan berson hawliau pori ar dir penodol, ni all y tir feddiannwr godi adeilad ar y tir hwnnw oherwydd y byddai hynny'n lleihau'r tir pori a fyddai ar gael.

## 2.Tir comin yng Nghymru

Mae cyfanswm o tua 175,000 ha o **dir comin yng Nghymru**, sy'n cyfateb i 8.5% o holl dir y wlad. **Mae'r rhan fwyaf o dir comin (PDF 0.99MB)** yn ardaoedd ucheldir canolbarth a gorllewin Cymru, yn enwedig yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Yn ogystal â bod yn rhan bwysig o'r diwydiant amaethyddol, mae tir comin hefyd yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, yn enwedig ym maes gwarchod natur a chynefinoedd. Mae **tua 40% (79,000 ha)** o dir comin Cymru wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae 50% o'r tiroedd hyn yn cael eu hystyried yn dirwedd warchodedig. Mae'r rhan fwyaf o dir comin Cymru yn eiddo i **berchnogion preifat**. Mae tiroedd comin eraill yn eiddo i ystadau traddodiadol, Comisiynwyr Ystâd y Goron a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Fel arfer, caiff tir comin ei gofrestru o dan **Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965**.

## 3.Newidiadau mewn deddfwriaeth tir comin

Tan y 1960au, mater o wybodaeth leol ac o ddyfalu oedd faint o dir comin oedd i'w gael. Yn dilyn **Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965** (sy'n parhau mewn grym yn rhannol) roedd yn rhaid i awdurdodau penodol gofrestru tir comin, meysydd tref a phentref, a'r hawliau comin ar y tiroedd hynny. Oherwydd nifer o anghysonderau ac afreoleidd-dra, cyflwynwyd Deddf newydd yn 2006, **Deddf Tir Comin 2006** (Deddf 2006). Nod Deddf 2006 oedd mynd i'r afael â gwendidau'r ddeddfwriaeth flaenorol, diogelu tir comin ymhellach a chaniatáu iddo gael ei reoli'n fwy cynaliadwy.

Mae pum rhan i Ddeddf 2006:

- **Rhan 1 Cofrestru:** Mae'n ofynnol i awdurdodau cofrestru tir comin (awdurdodau lleol Cymru) sicrhau bod eu cofrestrau'n gyfredol drwy gofnodi newidiadau a wnaed yn y gorffennol a chywiro wallau. Mae hefyd yn caniatáu cofrestrau electronig ac yn cynnig proses newydd o gofrestru meysydd tref neu bentref;
- **Rhan 2 Rheoli:** Mae'n darparu ar gyfer sefydlu Cynghorau Tir Comin. Cominwyr yw aelodau'r cynghorau hyn a byddant yn penderfynu ar y cyd (drwy bleidlais y mwyafrif) yngylch sut i reoli tir comin. Gall cynghorau tir comin reoleiddio a rheoli gweithgareddau amaethyddol, llystyfiant a hawliau comin ar y tir comin hwnnw;

- **Rhan 3 Gwaith:** Mae'n gwahardd mathau penodol o waith ar dir comin heb ganiatâd Gweinidogion Cymru ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cael caniatâd;
- **Rhan 4 Amrywiol:** Mae'r rhoi pwerau i awdurdodau lleol dros dir nad oes neb wedi'i hawlio, yn ogystal â phwerau i ddiogelu tir comin neu feysydd tref neu bentref sydd â hawliau comin ynghlwm wrthyn rhag ymyrraeth anghyfreithlon. At hyn, mae'n rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru atal gwaith amaethyddol anghyfreithlon ar dir comin ac yn diddymu ambell ddarn o ddeddfwriaeth hynafol; a
- **Rhan 5 Atodol a Chyffredinol:** Mae'n cynnwys pwerau i ddiwygio sut y mae Deddfau eraill yn gymwys i dir comin a meysydd tref neu bentref, ac i ddiwygio sut y mae Deddfau eraill, sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, yn gymwys i dir comin a meysydd tref a phentref.

## Rhoi Deddf Tir Comin 2006 ar waith yng Nghymru

Mae Deddf 2006 yn gymwys i Gymru a Lloegr ond mae'n dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno gorchmynion cychwyn i roi darpariaethau'r Ddeddf ar waith. Mae Cymru yn rhoi Deddf 2006 ar waith drwy gyfrwng rhaglen dreigl. Mae adrannau sylweddol, fel y rhai'n ymwneud â gwaith cyfyngedig ar dir comin a dadgofrestru a chyfnewid tir comin, eisoes wedi dod i rym. Fodd bynnag, nid yw rhai adrannau mawr, yn ymwneud â rheoli tir comin a chofrestru hawliau comin (ac eithrio holiti hawliau) wedi dod i rym yn llawn eto. Mae gan Lywodraeth Cymru **restri fanwl o'r adrannau sydd mewn grym ar hyn o bryd**. Mae rhai adrannau mewn grym dim ond er mwyn gwneud rheoliadau neu i roi arweiniad, ac nid ydynt wedi'u cychwyn yn llawn eto.

## 4. Cofrestru tir comin

Mae Llywodraeth Cymru wedi **cyflwyno darpariaethau** i ddiwygio cofrestrau ac mae wedi cyflwyno **gweithrefn i wneud cais i gywiro camgymeriadau**.

Ar hyn o bryd, mae cofrestrau tir comin, gan gynnwys cofnod o hawliau pori unigol a pherchnogaeth tir, yn cael eu cadw ar bapur gan awdurdodau lleol. Mae Deddf 2006 yn galluogi Llywodraeth Cymru i droi cofrestrau papur yn gofrestrau electronig. Mewn **Datganiad Ysgrifenedig ym mis Chwefror 2018**, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod y broses hon yn mynd rhagddi ac y dylai fod wedi'i chwblhau erbyn 2021.

Ers mis Mai 2018, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n datblygu cofrestr electronig o dir comin. Nid yw Lloegr wedi rhoi'r adran berthnasol o Ddeddf 2006 ar waith eto, ac nid yw wedi cyhoeddi unrhyw gynlluniau i wneud hynny.

## 5.Rheoli tir comin

Yn ôl **adroddiad gan Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)**

**Llywodraeth y DU**, mae'r rhan fwyaf o dir comin Cymru o dan reolaeth amaethyddol ac yn cael ei bori gan dda byw. Gan fod gan nifer o ffermwyr hawl i bori'r un tir comin fel arfer, mae systemau rheoli wedi bod ar waith ers canrifoedd i gydgyssylltu'r modd y caiff y tir ei ddefnyddio.

Mae'r ffordd y caiff tir comin ei reoli heddiw'n amrywio o'r naill ddarn o dir comin i'r llall. Mae rhan 2 o Ddeddf 2006 yn cynnwys darpariaeth i sefydlu cynghorau tir comin statudol, os oes cefnogaeth ymhlið rhanddeiliaid i wneud hynny, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi dod â'r rhan hon o'r Ddeddf i rym eto.

Fodd bynnag, o dan **Cynllun Tir Comin Glastir**, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi Swyddogion Datblygu Tir Comin i sefydlu cymdeithasau tir comin/porwyr. Mae'r cymdeithasau hyn yn caniatáu i gominwyr wneud cais ar y cyd am arian amaeth-amgylcheddol. Rhaid i'r cymdeithasau gynnwys o leiaf 80% o'r porwyr a rhaid iddynt fod â chyfrifoldeb dros reoli'r holl ardaloedd sy'n rhan o contract tir comin Glastir. O dan y contract, rhaid i gymdeithasau ymrwymo i fabwysiadu un o ddua ddull rheoli tir. Rhaid iddynt naill ai gyfyngu ar nifer y da byw sy'n pori ar y tir, neu gytuno i beidio â rhoi da byw ar y tir dros gyfnod penodol yn y gaeaf. Rhaid i'r cymdeithasau hefyd gadw at god tir comin.

Erbyn mis Mai 2013, roedd **147 o contractau elfen tir comin** wedi'u llofnodi o dan Glastir. Mae hyn yn cyfateb i 48% o dir comin Cymru ac mae gryn dipyn yn uwch na'r 2% o dir comin a oedd wedi'i gynnwys o dan y cynllun blaenorol, sef cynllun Tir Gofal.

## 6.Mynediad cyhoeddus i dir comin

Mae **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW)** yn ehangu hawliau tramwy i holl diroedd comin cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys yr 'hawl i grwydro' ac mae'n caniatáu gweithgareddau fel cerdded, gwyliau adar a dringo. Nid yw'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r tir i feicio neu i farchogaeth, ni chânt yrru cerbydau na gwersylla arno, a chaiff nifer o weithgareddau eraill eu gwahardd oherwydd y gallant niweidio'r tir comin a'i lystyfiant neu darfu ar dda byw neu fywyd gwylt. Weithiau, caniateir i bobl yrru ar y tir os oes rhaid iddynt wneud hynny i gyrraedd eu heiddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori tirfeddiannwyr i gadarnhau pa hawliau mynediad cyhoeddus sy'n berthnasol i'r tir comin nhw.

## 7. Gwaith ar dir comin

Mae'n **rhaid cael caniatâd** i ymgymryd ag unrhyw waith cyfyngedig ar dir comin. Gwaith cyfyngedig yw gwaith sy'n atal neu'n rhwystro mynediad at y tir, neu drosto. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau fel codi ffensys neu adeiladau a chloddio ffosydd, ond gall hefyd gynnwys defnyddio tarmac, neu ddeunydd tebyg, i roi wyneb newydd ar y tir. Rhaid cael caniatâd ni waeth pwy sy'n bwriadu ymgymryd â'r gwaith (y perchnog, y cominwyr neu unrhyw un arall). Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd ychwanegol hefyd fel caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.

Mae **Arolygiaeth Cynllunio Cymru** yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau'n gysylltiedig â thir comin a meysydd tref neu bentref. Yn gyffredinol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw waith cyfyngedig ar dir comin cofrestredig. Mae Deddf 2006 yn nodi y dylai Gweinidogion Cymru, wrth wneud hynny, ystyried buddiannau'r rhai sydd â hawl i ddefnyddio'r tir (ee y cominwyr), y rhai sydd ag eiddo'n ffinio â'r tir, yn ogystal â budd y cyhoedd. Mae budd y cyhoedd yn cynnwys cadwraeth natur, diogelu'r dirwedd, diogelu hawl mynediad y cyhoedd a diogelu buddiannau archeolegol.

Mae **Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno rheoliadau** sy'n nodi'r drefn ar gyfer gwneud cais am ganiatâd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau ar wneud ac asesu'r ceisiadau hyn**, ac ar **fesurau gorfodi yn achos gwaith anghyfreithlon** ar dir comin.

Mae Deddf 2006 yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn i eithrio rhai mathau penodol o waith o'r gwaharddiad. Er nad yw Cymru wedi gwneud Gorchymyn o'r fath, mae **Works on Common Land (Exemptions) (England) Order 2007** mewn grym yn Lloegr.

### Caniatâd i gyfnewid a dadgofrestru tir comin

O dan adran 16 o Ddeddf 2006, gall perchnogion tir comin cofrestredig neu feisydd tref neu bentref wneud cais i ddadgofrestru'r tir. Os yw'r 'tir a ryddhawyd' yn mesur mwy na 200 m<sup>2</sup>, rhaid iddynt gofrestru 'tir cyfnewid' fel tir comin neu faes yr un pryd. Os yw'r tir a ryddhawyd yn mesur llai na 200 m<sup>2</sup>, nid oes rhaid cynnig tir cyfnewid.

## 8. Busnes y Cynulliad

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae tir comin wedi codi sail gwaith ym Musnes y Cynulliad.

Yn y **Cyfarfod Llawn ar 8 Mai 2013**, soniwyd am yr angen i roi gwybod i randdeiliaid am fuddion Glastir o safbwyt tir comin. Roedd **Fforwm Tir Comin Cymru** eisoes wedi mynegi pryder am y posibilrwydd y gallai Glastir arwain at sefyllfa lle nad oedd digon o dda byw'n cael eu cadw ar dir comin ac na fydd yn cael ei borïn ddigonol. Nodwyd bod y pryderon hyn yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n well â'r prif randdeiliaid.

Ymatebodd Alun Davies, y Gweinidog ar y pryd dros Gyfoeth Naturiol a Bwyd, fod llwyddiant Cynllun Tir Comin Glastir yn dangos bod nifer eisoes yn deall buddion y rhaglen, ond roedd yn cyfaddef bod angen cyfathrebu mwy â rhanddeiliaid.

Cyfeiriwyd unwaith eto am y posibilrwydd na fyddai tir comin yn cael ei borïn ddigonol o dan Glastir yn y **Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror 2014**. Dywedodd Alun Davies fod dogfen ymgynghori Glastir, a gyhoeddwyd bythefnos cyn y ddadl, wedi ymdrin â'r mater hwn. Yn y **ddogfen ymgynghori derfynol**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cynllun Glastir newydd ar gael i hybu trefniadau pori cynaliadwy ar y tiroedd comin dan sylw. Cyhoeddodd hefyd y byddai'n ailgyflwyno lefelau pori sylfaenol a mwy o hyblygrwydd o ran y cyfraddau stocio uchaf.

Yn y Cyfarfod Llawn **ar 1 Rhagfyr 2015**, trafodwyd y syniad o beidio ag eithrio gwartheg rhag profion TB cyn eu symud i dir comin, neu oddi arno. Cafodd penderfyniad blaenorol i eithrio'r gwartheg hyn rhag profion TB ei ddileu fel rhan o raglen 2016 i ddileu TB mewn gwartheg. Holwyd a oedd modd cyfiawnhau'r gwaith ychwanegol roedd hyn yn ei olygu i ffermwyr a oedd wedi llofnodi cytundebau cyn y dyddiad hwn, yn enwedig gan nad fyddent, o reidrwydd, wedi bod yn ymwybodol o hyn wrth lofnodi'r cytundebau. Dywedodd Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog ar y pryd dros Ffermio a Bwyd, ei bod o blaid cadw'r eithriad, gan ddweud ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, a bod Defra eisoes wedi'i weithredu'r flwyddyn flaenorol. Yn **y rhaglen bresennol i ddileu TB**, nid yw gwartheg sy'n cael eu symud i dir comin, neu oddi arno, yn cael eu heithrio rhag profion TB.

Yn ei **Adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Cynllunio (Cymru) (PDF 582KB)** (Ionawr 2015), un o argymhellion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd oedd y dylai'r Gweinidog ddileu Adran 50 o'r Bil. Roedd Adran 50 yn cyflwyno darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu ffioedd ar gyfer ceisiadau i ddiwygio cofrestrau tir comin a meysydd tref neu bentref. Pasiwyd **y Bil** ym mis Mai 2-15 heb y newid a awgrymwyd. Cafodd y pwér i wneud darpariaeth yngylch ffioedd ei gynnwys yn **Adran 54 o'r Ddeddf**.

Yn **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad (PDF 2.88MB)**, cyfeiriodd y Pwyllgor Amgylchedd ac Etifeddiaeth at y merlod a oedd yn cael eu gadael ar dir comin Cymru a bod angen ymchwilio ymhellach i'r broblem hirsefydlog hon. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid craffu ymhellach ar ôl y broses ddeddfu ar **Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014**. Yn ogystal â hyn, awgrymodd y dylai pwyllgor, yn y dyfodol, ystyried dileu'r penderfyniad i eithrio merlod ar rai tiroedd comin rhag y rheolau adnabod ceffylau a'r rheolau microsglodion. Roedd **Adolygiad Equiventus of Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 (PDF 1.18MB)** (a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2017) yn argymhell dod o hyd i ateb cynaliadwy i'r broblem drwy drefniadau cydweithredol. Mewn **ymateb ysgrifenedig** ym mis Ionawr 2018, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i asesu maint y broblem ac i ddod i hyd i atebion drwy annog tirfeddianwyr, cyrff lles, awdurdodau lleol a'r rhai a oedd â budd mewn tir comin i gydweithio â hi at y diben hwn.

Mewn **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Chwefror 2017**, soniwyd at yr ansicrwydd ynghylch diogelu a gorfodi hawliau comin. Cytunodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion gwledig, i adolygu'r canllawiau presennol ac, os oedd hynny'n briodol, byddai'n gwneud datganiad am y cymorth a oedd ar gael i ddiogelu hawliau comin. Fel ar Fehefin 2018, nid oedd datganiad o'r fath wedi'i gyhoeddi.

Yng **Nghyllideb Ddrafft 2018-19**, dyrannodd Llywodraeth Cymru £433,000 o gyllid refeniw ar gyfer 2018-19 a £1.1 miliwn o gyllideb cyfalaf dros y tair blynedd nesaf (2018-21) i weithredu cofrestr electronig o dir comin yng Nghymru. Yn ei **adroddiad craffu (PDF 341KB)**, nododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig fod y gyllideb cyfalaf a ddyrannwyd wedi'i drosglwyddo o'r llinell wariant ar gyfer Parciau Cenedlaethol i archwilio dulliau o ddod o hyd i refeniw, a byddai'n adrodd ar gynnydd cyn pen chwe mis.

## 9.Tir comin yng ngwledydd eraill y DU

Mae Lloegr, fel Cymru, wedi rhoi rhannau o Ddeddf 2006 ar waith (roedd Lloegr wedi dod â bob adran bron i rym erbyn 2014). Ers mis Mai 2018 felly, mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran tir comin mwy neu lai'r un fath yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio'r trefniadau i gofrestru hawliau comin. Er bod trefniadau ar waith eisoes yn Lloegr i werthu hawliau comin neu eu rhoi ar les, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r adrannau hyn ar waith dim ond ar ôl cwblhau'r gwaith o drosglwyddo i'r cofrestrau electronig.

Er bod yn rhaid cofrestru bron pob darn o dir comin yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Cofrestru 1965, a bod hynny wedi'i gynnwys yn awr o dan Ddeddf 2006, nid yw'r sefyllfa yng ngwledydd eraill y DU mor glir.

Hyd yma, nid oes gan yr Alban **unrhyw ddeddfwriaeth fodern** sy'n nodi faint o dir comin sydd yn y wlad nac yn egluro hawliau o safbwynt tir comin, a hynny er gwaethaf y ffaith bod ardal eang o diroedd yr Alban yn dir comin i bob pwrpas gan fod nifer o borwyr neu nifer o hawliau pori ynghlwm wrtho. Yn ôl **ffigurau'r Sefydliad Tir Comin**, fel hyn y mae tua 592,000 ha, neu 7%, o dir yr Alban yn cael ei ddefnyddio. Er mwyn medru diogelu tir comin ymhellach, yn 2016, gwahoddodd Gweinidog Diwygio Tir yr Alban **Comisiwn Tir yr Alban** i adolygu'r **Division of Commonies Act 1695 a oedd yn Ddeddf hynafol**.

Yng Ngogledd Iwerddon, amcangyfrifir mai dim ond **rhan gymharol fach o dir** (36,390 ha, neu tua 2.6% o holl dir y wlad) sy'n dir comin, a phrin iawn yw'r wybodaeth am ei statws cyfreithol. Yn ôl **adroddiad a gyhoeddwyd yn 2010 gan Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon (PDF 3.28MB)**, mae hawliau traddodiadol ffermwyr i ddefnyddio tir comin wedi diflannu i bob pwrpas, er bod rhai hawliau rhanberchnogaeth yn parhau.

## 10. Y prif ffynonellau

- Llywodraeth y DU, **The Commons Act 2006**;
- Llywodraeth y DU, Defra, **Agricultural management of common land in England and Wales**;
- Llywodraeth Cymru, **Diogelu Tir Comin**;
- Llywodraeth Cymru, **Tir Comin**;
- Llywodraeth Cymru, **Tir Comin Glastir**;
- **Y Sefydliad Tir Comin**,
- Y Sefydliad Tir Comin, Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Bugeilyddiaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd, **State of commoning in Wales report (PDF 7.83)**; and
- Y Gymeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), **Cyflwr tir comin Cymru - astudiaeth arwyddol (PDF 0.99MB)**.